




Beth yw'r defnydd gorau ar gyfer twnnel tyfu?




Beth yw twnnel tyfu?

- Mae twnneli tyfu yn strwythurau siâp twnnel a ddefnyddir wrth ffermio i helpu i dyfu cnydau.
- Maent yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer tyfu ffrwythau meddal fel mefus, mafon a mwyar duon, ond fe'u defnyddir hefyd ar gyfer tomatos, winwns, puprynnau, tatws a blodau.




Sut y gall twneli polythen gefnogi ffermio mwy cynaliadwy?

- Gellir amddiffyn ffrwythau hyfryd, fel mefus, rhag tywydd gwael sy'n eu dinistrio, sy'n golygu bod llai o fwyd yn cael ei wastraffu.
- Mae'r tymheredd cynnes y tu mewn i'r twneli polythen yn golygu y gallwn dyfu ffrwythau sydd angen tywydd llawer poethach nag yr ydym fel arfer yn ei gael yn y DU, felly nid oes angen i ni hedfan cynnyrch i mewn o wledydd cynhesach.
- Mae cnydau'n cael eu hamddiffyn rhag cael eu cnoi gan blâu.
- Anfonir y dalennau plastig sy'n gorchuddio'r twneli i'w hailgylchu ar ôl iddo gael ei ddefnyddio.



Priodweddau defnyddiau

- Pa briodweddau defnyddiau allwch chi gofio dysgu amdanynt?
- Yn eich barn chi, pa briodweddau sydd eu hangen ar y defnydd sy'n gorchuddio twnnel tyfu?




Eich her!

Rydych chi'n ffermwr a hoffai ddechrau defnyddio twneli tyfu i'ch helpu chi i dyfu cnydau.


Eich her yw ymchwilio pa un yw'r defnydd gorau i'w ddefnyddio ar gyfer y gorchudd.

- Pa briodwedd wnewch chi ei ymchwilio?



Beth wnaethoch chi ei ddarganfod?

- Pa ddefnydd fydd orau ar gyfer gorchuddio twnnel tyfu?
- Beth allech chi ei wneud nesaf gyda darganfyddiadau eich ymchwiliad?



Cystadleuaeth



Meddyliwch sut y gallech chi ddefnyddio eich dysgu am sut mae twneli tyfu yn gweithio i'ch helpu i ddylunio syniad, dyfais neu arloesedd a fydd yn helpu ffermwyr i barhau i ofalu am yr amgylchedd a bod yn archarwyr hinsawdd.

www.farmvention.com

